Cenn@d

IONAWR 7 2026 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* | RHIF 254

# Brwydr y Deyrnas yn 2026

Yn ystod 2025 bu mudiadau a gwleidyddion asgell-dde ym Mhrydain yn cynyddol ddefnyddio Cristnogaeth fel arf gwleidyddol.

Ymhlith y dorf o 150,000 ym mhrotest ‘Unite the Kingdom’ yn Llundain ym mis Medi roedd yna Gristnogion yn cario croesau mawr o bren. Eu bwriad oedd cymathu’r hyn maen nhw’n ystyried yn deyrnas Dduw gyda’r Deyrnas Unedig – proses a fyddai’n golygu gwahardd neu alltudio pawb o unrhyw grefydd arall.

‘Mae’n rhyfel crefyddol,’ meddai’r Parchg Brian Tamaki, gweinidog o Seland Newydd, wrth y dorf. ‘Iesu Grist yn erbyn Satan. Cristnogaeth yn erbyn Islam, Hindŵaeth, Bwdïaeth a phob crefydd ffug arall. Rhaid gwahardd halal, *burkas*, mosgiau a themlau.’

**Môr o ragfarn a chasineb**

Ar y llwyfan hefyd yr oedd yr Esgob Ceirion Dewar o Sir Benfro. Mae’n aelod blaenllaw o’r Eglwys Anglicanaidd Gyffesol, enwad sy’n ystyried aelodau Eglwys Loegr yn hereticiaid, gan fynnu mai hwy sy’n ‘glynu at fynegiant o’r Efengyl nad yw wedi’i lygru na’i wanhau’.

Wrth fendithio’r brotest yn ei wisg ddu a phorffor gyda’i groes a’i bastwn esgobol gwaeddodd: “This day we rise; rise up men and women of courage! We stand today on our own Bannockburn. We stand on our Agincourt. We will not surrender our freedom!” O diar, diar, Mr Dewar!

Trefnwyd y brotest asgell dde fwyaf a welwyd ym Mhrydain erioed gan Tommy Robinson, sy’n dweud iddo ganfod Crist yn y carchar y llynedd. Eto, prin fod ‘asgell dde’ yn ddisgrifiad digonol o’r môr o ragfarn a chasineb a lifodd drwy ganol Llundain y diwrnod hwnnw. A phrin y byddai Iesu o Nasareth, cyfaill yr alltud a’r ‘arall’, wedi cymeradwyo’r alwad i anfon ymfudwyr cyfreithlon o Brydain, a chynnal croesgad gyfoes yn erbyn Mwslemiaid.

**Braw a phryder**

Cafodd y defnydd o’r Groes i hyrwyddo elfennau eithafol ei gondemnio gan arweinwyr y prif enwadau Cristnogol. Gan gydnabod hawl pobl i fynegi barn, gresynwyd bod yr elfennau hiliol a gwrth-Fwslemaidd wedi codi braw ac achosi pryder mewn sawl cymuned. Cyhoeddwyd llythyr agored, cydenwadol, yn datgan bod Iesu’n galw ar Gristnogion i garu cymdogion a gelynion, ac i groesawu’r dieithryn.

Fe wnaeth y ffrae barhau dros gyfnod y Nadolig wrth i Unite the Kingdom fynnu: ‘Put Christ back in Christmas.’ Ymatebodd Eglwys Loegr drwy osod posteri mawr mewn llochesau bysiau oedd yn datgan: ‘Christ has always been in Christmas’ ac ‘Outsiders welcome’.

**Wynebu blwyddyn heriol**

Ym mlwyddyn etholiadau’r Senedd yma yng Nghymru, yn yr Alban ac yn nifer o gynghorau Lloegr, mae perygl y gwelir crefydd yn parhau i gael ei defnyddio fel arf gan wleidyddion asgell dde i ledaenu’r ensyniad ein bod ni, Gristnogion, yn cael cam – a hynny er mwyn ceisio creu’r ymdeimlad o baranoia a dicter. Fe allai natur a bwriad yr ymgyrch dros adfer ‘gwerthoedd Cristnogol Prydain’ gael canlyniadau gwleidyddol a chymdeithasol difrifol.

Onid yw’r camddefnydd o enw Crist i gyflawni amcanion eithafol yn ein herio ni yn 2026 i ddinerthu hynny ar lawr gwlad ac yn genedlaethol trwy gyhoeddi neges Iesu o gariad a goddefgarwch gyda brwdfrydedd newydd? Yn wir, onid yw’n ddyletswydd arnom ni i wneud hynny? Byddwn yn barod am flwyddyn newydd heriol!

*Alun Lenny*
*Gyda diolch i Cristnogaeth 21*



Llun: Unsplash.com

O’r Nadolig i’r Ystwyll: Cyfarchion Llywydd EBC ar ddechrau 2026 — Tudalen 3

Cyfarchion Llywydd Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru — Tudalen 4

50, 80, 100 a 1700 — Tudalen 7

# Cyfarchion Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru



Ar ddechrau blwyddyn newydd, mae Rob Nicholls, Llywydd Undeb y Bedyddwyr, yn rhannu ei gyfarchion a'i ddymuniadau gorau â darllenwyr *Cenn@d* wrth i ni gael cyfle i edrych 'nôl ar y flwyddyn a aeth heibio – ac edrych ymlaen at 2026.

Annwyl gyfeillion yng Nghrist,

Wrth inni gychwyn ar daith blwyddyn newydd, hoffwn anfon fy nymuniadau cynhesaf i bob un ohonoch ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru. Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn o newid, her a chyfleoedd i bawb, ac rydym wedi profi unwaith eto sut mae gras a ffyddlondeb Duw yn ein cynnal ym mhob peth. Wrth edrych 'nôl dros ysgwydd y misoedd, cofiwn yn arbennig am y rhai sydd wedi profi colled, salwch a phryder, ond hefyd cydnabyddwn y llawenydd a'r gobaith a ddaeth inni o berthyn i deulu ffydd a chymuned o gredinwyr, a'r fraint a brofwn wrth wasanaethu yn enw'r Arglwydd.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio gwelsom nifer o'n heglwysi'n cymryd camau dewr yn arbrofi gyda'u gweinidogaeth – yn sefydlu hybiau cenhadol lleol, yn cefnogi ein pobl ifanc, neu'n syml yn estyn llaw trugaredd at y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Trwy'r cyfan, bu'r Ysbryd Glân yn ein harwain i fyw a thystio i'r efengyl mewn dulliau ffres a newydd. Afraid dweud bod rhai capeli wedi wynebu tristwch a siom wrth orfod dirwyn yr achos i ben – rhai ohonynt yn achosion hynafol a dylanwadol o fewn yr Undeb. Ond awn rhagom mewn ffydd gan gredu bod llaw'r tragwyddol yn llywio'r cyfan: "Fel y mae'r nefoedd yn uwch na'r ddaear, y mae fy ffyrdd yn uwch na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi, medd yr Arglwydd" (Eseia 55:9).

Diolchwn am y dystiolaeth ffyddlon sy'n parhau o genhedlaeth i genhedlaeth, gan ddangos nad ein hadnoddau ein hunain sy'n ein cynnal, ond cariad diddiwedd Crist. Rhan ganolog o wyrth geni'r Iesu ym Methlehem yw'r goleuni hwnnw sy'n tywynnu yng nghanol pob tywyllwch. Cofiwn mai ef yw ein heddwch, ein gobaith a'n nerth. Mewn byd sy'n teimlo'n ansicr ac yn fregus, rydym yn cael ein galw i ailddarganfod y newyddion da sy'n trawsnewid bywydau. Cofiwn yn arbennig am y gwledydd a'r ardaloedd amlwg ac anamlwg hynny sydd ynghanol rhyfel a thrais ledled byd.

Gyda'r flwyddyn newydd yn ymagor o'n blaen, daw cyfleoedd mawr i ni fel Undeb Bedyddwyr Cymru i barhau i sefyll yn ddewr mewn ffydd, ac i ymrwymo'n ddyfnach i wasanaethu ein cymunedau. Bydd 2026 yn gyfle i adeiladu pontydd newydd, i gryfhau ein cydweithio, ac i wrando ar lais Duw yn ein tywys i'r dyfodol. Yn fwy nag erioed, mae'r byd angen tystiolaeth eglwys sy'n adlewyrchu cariad Crist mewn geiriau a gweithredoedd. Bydded i ni, fel Bedyddwyr Cymru, fod yn bobl o obaith, o ffydd a thosturi, gan ddwyn neges ac esiampl Iesu Grist lle bynnag yr awn.

Hoffwn ddiolch o galon i'n gweinidogion, staff yr Undeb, a'n haelodau ffyddlon sydd wedi gweithio'n ddiwyd ac yn ddiflino dros y deyrnas yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Awn ymlaen i 2026 gyda diolchgarwch, dyfalbarhad a gobaith newydd. Terfynaf gyda geiriau John Roderick Rees – un o'm hoff emynau – wrth edrych ymlaen mewn ffydd at flwyddyn newydd arall:

> a ni wrth borth y misoedd
> yn ffyddiog am a ddaw,
> ar drothwy'r daith anesgor
> gafaelwn yn ei law.

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.

Yn ddidwyll ac mewn gwasanaeth,

*Rob Nicholls*

# Cyfarchion o'r Senana ar gyfer y flwyddyn newydd



Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn gyffrous i mi fel Llywydd y Senana. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r unigolion, yr eglwysi a chynrychiolwyr y BMS (Baptist Missionary Society) ac Undeb Bedyddwyr Cymru wnaeth gefnogi a chyfrannu at ddigwyddiadau'r Senana yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Mai daeth cyfarfod blynyddol y mudiad i Aberteifi. Roedd hi'n hyfryd croesawu chwiorydd y Senana o bob rhan o Gymru i Gapel y Bedyddwyr, Bethania. Rydw i'n ddiolchgar iawn i aelodau Bethania am eu cefnogaeth, nid dim ond i'r cyfarfod ac wrth i mi ddod yn Llywydd, ond am eu cefnogaeth barhaus. Roedd y cyfarfod blynyddol yn gyfle i ddiolch i'r Parchedig Misha Pedersen ac Elsa Harflett am eu gwasanaeth fel cyd-lywyddion y Senana am 2024/2025 ac i drosglwyddo'r llywyddiaeth i mi a'r is-lywyddiaeth i'r Parchedig Danni Worley o Ddolgellau. Thema'r cyfarfodydd oedd 'Dangos i mi dy ffyrdd', gan ganolbwyntio ar beth mae Duw yn ei ddysgu i ni bob dydd, a sut mae addysg yn hawl i bawb, nid braint yn unig.

Am yr ail flwyddyn cynhaliwyd ein cynhadledd flynyddol yng Ngholeg Trefeca. Unwaith eto, fe gawson ni amser bendithiol iawn wrth ddod ynghyd i addoli, i ddysgu, i rannu ac i chwerthin. Thema'r gynhadledd oedd 'Y Duw sy'n ein gweld a'r Duw sy'n ein clywed'. Bob blwyddyn rydyn ni'n estyn gwahoddiad i gynrychiolydd o'r BMS i siarad â ni am ei gwaith a'i brofiadau. Ac fe gawson ni'r pleser eleni o groesawu Laura Lee Lovering o Borthcawl atom i siarad am ei phrofiadau a'i gwaith ym Mheriw a hefyd ei rôl nawr fel Cydlynydd Stiwardiaeth y Greadigaeth gyda'r BMS. Roedd hi'n hyfryd clywed y sgyrsiau dros y tridiau am sut y gallwn ni ofalu am greadigaeth ryfeddol Duw yn ein hardaloedd.

Fel mudiad, rydyn ni'n edrych ymlaen at 2026. Ym mis Mai byddwn yn cyfarfod yn Nolgellau, lle bydda i'n trosglwyddo'r llywyddiaeth i Danni, a hoffwn ddymuno pob bendith iddi ar gyfer 2026/2027. Byddwn hefyd yn dychwelyd i Goleg Trefeca ddechrau mis Medi ar gyfer ein cynhadledd flynyddol. Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am y Senana a sut rydyn ni'n cefnogi cenhadaeth, neu os hoffech chi ymuno â ni, cysylltwch â fi: njm84@outlook.com.

Yn 2026 bydd ein hysgrifenyddes ymroddgar Suzanne Roberts yn camu i lawr o'r rôl ar ôl saith mlynedd, a byddaf yn camu i mewn i'r rôl fy hun. Hoffwn gymryd y cylfe i ddweud diolch o galon iddi, oddi wrth bawb yn y Senana, am ei chefnogaeth a'i holl waith dros y mudiad.

Yn olaf, ar ran mudiad y Senana, hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd hapus a bendithiol i chi i gyd, ac ym mhopeth rydych chi'n ei wneud yn 2026:

> Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw.
>
> *(Micha 6:8b, Beibl.net)*

*Natalie Morgan*
*Llywydd*

# O'r Nadolig i'r Ystwyll: Cyfarchion Llywydd EBC

Blwyddyn Newydd Dda iawn, lawn bendithion i chi i gyd. Mae yna bob amser edrych ymlaen mewn gobaith wrth newid y flwyddyn ar y calendr. I'r Cristion, nid rhyw optimistiaeth wan, annelwig sydd gennym wrth inni osod y calendr yn ei le. Ond gobaith sydd wedi ei seilio ar y gwirionedd plaen fod Duw hanes wedi dewis dod i'n byd o boen a dioddefaint a byw ochr yn ochr â ni, ym mha amgylchiadau bynnag a wynebwn.

Rydym yn camu i 2026 ag anesmwythyd am amgylchiadau'r byd yr ydym yn byw ynddo. Gwnaeth ysgrifenwyr yr Efengylau ddewis doeth wrth gyferbynnu goleuni a thywyllwch, daioni a drygioni, bywyd a marwolaeth. Rydym yn nhymor yr Ystwyll pryd y byddwn yn canolbwyntio ar ddyfodiad goleuni i'r byd, goleuni na all y tywyllwch ei drechu byth. Oherwydd bydd baban Bethlehem yn tyfu i fod y darlun llawnaf sydd gennym o Dduw, sy'n Dduw cariad, trugaredd a maddeuant. Fe orffwys ein gobaith yn y ffaith nad oes neb na all gael ei achub. Mae croeso i bawb i ddod at Dduw ac i mewn i'w deyrnas nefol newydd.

Rwy'n cael llawer o ysbrydoliaeth yn nhaith hir y gwŷr doeth at y gwirionedd. Fe fuon nhw'n holi amdano yn y lle anghywir wrth ofyn i Herod, ond unwaith y daethon nhw o hyd i'r un bychan, eu hymateb oedd plygu mewn addoliad o'i flaen a chynnig anrhegion iddo. Drwy'r addoliad y daethon nhw'n ddoeth mewn gwirionedd, yn ymwybodol o ddrygioni, ac fe aethon nhw adref ar hyd ffordd arall. Mae'r doethion yn ein hysbrydoli i weld bod pobl o bob cefndir a phob gallu a dawn yn canfod eu cyflawniad yn Iesu hanes a Christ y ffydd.

Mae'n addas felly fod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn digwydd yn ystod tymor yr Ystwyll, pryd y byddwn yn gweddïo am ysbryd o undod yn yr Eglwys. Yn y dyddiau pan fyddwn i'n cynnal gwasanaethau yn yr ysgol, byddem yn gwahodd cynrychiolydd o wahanol enwadau i arwain y gwasanaeth bob dydd o'r wythnos honno. Ymateb y prifathro ar y pryd oedd dweud mai'r hyn roeddem ni wedi ei ddangos oedd diffyg undod yr eglwys! Ond roedd pawb yn dod â'i bersbectif ei hun ac fe aethom ymlaen â'r fenter.



Bydd Adran Gweinidogaethau Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dechrau'r flwyddyn newydd drwy gyfarfod yn y Drenewydd er mwyn rhoi amser i ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer yr Eglwys. Yna, ddiwedd Ionawr, mae gennym gynhadledd ar ailstrwythuro. Rwy'n gweddïo y bydd y trafod yn y ddau le yma yn dangos gweledigaeth ac ysbryd i weithio yn ymarferol, a hynny yng nghymdeithas yr Ysbryd Glân ac ymrwymiad i ddyfodol yr Eglwys yn ein tir.

# Ailstrwythuro Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Erbyn hyn dylai darllenwyr *Cenn@d* fod yn ymwybodol fod yna gynigion ynglŷn ag ailstrwythuro Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Nid yw'r rheswm dros ailstrwythuro yn bennaf yn ymwneud â'r strwythur ei hun! Mae'n ymwneud â galluogi pobl i ymgysylltu â'i gilydd mewn ardaloedd lleol er mwyn canolbwyntio ar fentrau ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth sy'n ysgogi nid yn unig eglwys 2026, ond a fydd hefyd yn gwasanaethu eglwys y dyfodol. Er mwyn gwneud hynny'n effeithiol, rhaid i ni symleiddio ein strwythur presennol a'n dulliau gweithio.

Cynigir ein bod yn dychwelyd i'r strwythur symlach a sefydlwyd gan ein cyndadau gynt, ac mae'n cynnwys tynnu lefel ychwanegol y Gymanfa Gyffredinol o'n gweinyddiaeth, a galw ein hunain eto'n Gymdeithasfa. Fel eglwys ddwyieithog, bydd y Gymdeithasfa yn gweithio fel corff llawn yr Eglwys, mewn tair 'talaith'. Ar hyn o bryd, mae dwy Gymdeithasfa Gymraeg ac un Saesneg.

Mae nifer o benderfyniadau eraill i'w gwneud – i alluogi pobl i ganolbwyntio ar genhadaeth a gweinidogaeth yn lleol. Mae'r ymgynghoriad yn eich gwahodd i benderfynu ar faint henaduriaethau'r dyfodol, a'u hyd a lled daearyddol. Pa faint fydd yn eich galluogi i weithio fwyaf effeithiol ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth yn eich ardal chi?

Bydd trosglwyddo rhai o dasgau'r henaduriaethau presennol (megis cyllidebau a chynllunio strategol) i'r Gymdeithasfa yn golygu y gall trafodaethau lleol ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer twf. Bydd hynny, wrth gwrs, yn cynnwys cynigion ar wariant ar bobl ac adeiladau, a fydd angen cael eu cymeradwyo gan y Gymdeithasfa. Un cyfundeb neu enwad ydym ni, felly caiff penderfyniadau eu gwneud yn genedlaethol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, i fod yn deg i bawb ac i'n cysylltu â'n gilydd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Ar hyn o bryd, mae'r broses o wneud penderfyniadau yn rhy araf. Awgrymir y dylai penderfyniadau gael eu gwneud bob tri mis mewn cyfarfodydd o'r Gymdeithasfa, a gall fod angen cefnogaeth




weinyddol arnom gan Swyddogion yr Enwad. Ar hyn o bryd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud hefyd mewn tuag ugain o bwyllgorau. Mae gorgyffwrdd yn yr agenda ar gyfer y pwyllgorau hyn, rhy ychydig o bobl yn y cyfarfodydd ac mae adborth yn cymryd gormod o amser. Felly, awgrymir eu huno yn bum pwyllgor a fydd yn canolbwyntio ar ein prif feysydd gwaith fel Eglwys. Gallant gwrdd yn fwy rheolaidd, a chyflwyno penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Gymdeithasfa.

Gobeithiaf y byddwch yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn. Nid yn unig y mae angen i ni gael cydsyniad ar ein blaenoriaethau fel Eglwys, ond yna bydd angen i ni gefnogi'r penderfyniadau a wnaed a defnyddio gweledigaeth ac egni pobl, yn lleol ac yn genedlaethol, i gyfrannu at genhadaeth a gweinidogaeth ar gyfer y dyfodol.

*Glynis Owen*
*Llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC*

Gellir darllen y ddogfen ailstrwythuro ar wefan EBC:
https://www.ebcpcw.cymru/wp-content/uploads/2025/11/Dogfen-Ail-Strwythuro.pdf

# Cyfarchion Llywydd Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru

Cyfarchion ichi ar ddechrau blwyddyn newydd. Rhodd Duw yw'r dydd hwn, fel y mae Duw wedi rhoi'r flwyddyn newydd i ni. Diolchwn iddo am ei haelioni. Iesu yw goleuni'r byd sydd yn ein galw ni i ostyngeiddrwydd yn ein gwasanaeth iddo. Mae ei ddysgeidiaeth yn gofyn i ni fod yn garedig a dangos cariad at ein cyd-ddyn. Darllenwn yn y Beibl am garedigrwydd nifer o bobl, fel Ruth yn gofalu am ei mam yng nghyfraith yn ei henaint, Boas yn rhoi cyfle i Ruth gasglu grawn o'i gae, a Joseff yn dangos cariad at ei frodyr, er eu bod yn genfigennus o'i gôt liwgar ac wedi ei daflu i bydew.

Mae adnod yn y Llythyr at yr Effesiaid sy'n dweud: "Byddwch yn dirion wrth eich gilydd, yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd fel y maddeuodd Duw i chi". A dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, ac fe ddywed wrthym ni bob un: "Carwch eich gilydd".

Mae'n hawdd bod yn garedig wrth deulu a ffrindiau. Ond a yw'n rhwydd bod yn garedig wrth y rhai nad ydym yn eu hadnabod?

Gwers dameg y Samariad Trugarog yw bod offeiriad a Lefiad wedi anwybyddu dyn mewn angen. Ond er nad oedd yn adnabod y dyn, mae'r Samariad wedi dangos tosturi tuag at y gŵr oedd wedi ei anafu gan ladron. Roedd Mam yn arfer dweud: "Rho dy hunan yn eu lle nhw, er mwyn i ti gael deall yn iawn sut maen nhw'n teimlo."

Mae Llyfr Joel yn disgrifio Duw fel hyn: "Graslon a thrugarog yw Ef, araf i ddigio a mawr ei ffyddlondeb, ac yn gofidio am ddrwg." Mae Duw yn rhoi yn hael o'i garedigrwydd. Beth yw 'caredigrwydd'? Gweithred o haelioni, heb ofyn na disgwyl canmoliaeth na gwobr.

Gweithred o weledigaeth a charedigrwydd oedd sefydlu Cartref Bedyddwyr Glyn Nest 55 mlynedd yn ôl. Trwy gariad, gwelwyd bod angen cartref gofal i ddeiliaid. Mae deiliaid Glyn Nest yn hollol deilwng o dderbyn gofal gyda charedigrwydd yng ngaeaf eu dyddiau, pan fyddant yn fregus.

Mae ein byd heddiw yn fyd creulon: rhyfela, llofruddiaethau, dwyn eiddo, creulondeb at blant – torri'r gorchmynion a gafodd Moses ar lechi carreg oddi wrth Dduw ar fynydd Sinai; torri gorchmynion Iesu. Ond yn y Rhufeiniaid mae Duw yn dweud: "Myfi piau dial, myfi a dalaf yn ôl."

Gweddïwn yn daer am heddwch yn ein byd, ac i arweinwyr ein byd gymodi: "Fel na byddo mwyach na dial na phoen, / na chariad at ryfel ond rhyfel yr oen."

Byddai ein byd yn llawer hapusach ac iach pe bai cariad a charedigrwydd yng nghalon pob un ohonom. Gallwn ddangos caredigrwydd mewn nifer o ffyrdd:



gwirfoddoli dros eraill, gofalu am y rhai sydd mewn angen, neu, fel dywedodd y gantores Dolly Parton, "If you see someone without a smile, give them yours". Dim ond gwên – mae hyn yn siŵr o godi calon. Anne Frank a ddywedodd: "You can always give something, even if it is only kindness." Caredigrwydd, cariad, fel mae Iesu'n ein dysgu.

Gras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw, ein Tad nefol, fyddo gyda ni oll yn oes oesoedd. Amen.

*Gret Evans*
*Llywydd Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru*

# O Gefn Gwlad

## Ble mae'r coma?

Cwestiwn pwysig ar ddechrau blwyddyn, tybed? Wel, darllenwch ymlaen a falle y byddwch yn cytuno ei fod.

Aeth peth amser heibio bellach ers pan gawsom oedfa arbennig yng Nghefnddwysarn yng nghwmni Beryl Vaughan, Llanerfyl, un o ferched Meirionnydd, cofiwch, er bod mwynder Maldwyn yn rhan ohoni erbyn hyn. Fe seiliodd ei gwasanaeth ar yr adnod 'Duw, cariad yw' o Epistol Cyntaf Ioan. Ac yn ystod yr emynau, gan na allaf brin ganu erbyn hyn, fe'm cefais fy hun yn meddwl ble tybed y mae'r coma yn y cymal yma o adnod, os oes un o gwbwl?

Dwi ddim yn credu bod dim byd yn od iawn mewn meddwl fel hyn chwaith, gan fod lleoliad coma yn aml yn gallu newid ystyr brawddeg neu gymal. Felly hwn. Y mae yna wahaniaeth rhwng 'Duw cariad yw' di-goma a 'Duw, cariad yw'. Y mae'r ail yn rhoi mwy o bwyslais ar y cariad ac yn awgrymu y gallasai fod yn Dduw rhywbeth arall hefyd ym meddyliau rhai.

Ac yn wir, o fynd i lyfrau'r Hen Destament, fe ganfyddwn fod hynny'n wir dro ar ôl tro yn syniadau'r bobl ar hyd y canrifoedd. Y mae Duw, ymhlith pethau eraill, yn dduw rhyfelgar, yn dduw eiddigus, yn dduw dialgar ac yn dduw dicllon. Dyma rai adnodau i brofi hynny; gellid dyfynnu rhagor:

**rhyfelgar**: Ecsodus 15:3 – Yr Arglwydd sydd ryfelwr (meddai Moses)

**eiddigus**: Ecsodus 34:4 – Duw eiddigus yw efe

**dialgar**: Eseia 35:4 – eich Duw chwi a ddaw â dial

**dicllon**: Eseia 5:25 – Am hynny yr enynnodd llid yr Arglwydd yn erbyn ei bobl.

Yn fersiwn yr Esgob William Morgan y mae'r coma yn y cymal: 'Duw, cariad yw', ond nid mewn fersiynau eraill. Mae hyn yn gwneud i mi feddwl bod yr Esgob wedi ei deall hi, wedi sylweddoli bod Duw yn cael ei gydnabod yn llawer peth, a bod angen felly bwysleisio yn wyneb hyn mai cariad ydyw, nid dim un o'r disgrifiadau eraill a briodolir iddo. Mae Beibl.net hefyd, a bod yn deg, yn ceisio pwysleisio hynny drwy ddweud: 'Cariad ydy Duw', ond bod yr hen 'ydy' yna yn anffodus yn fy atgoffa i o fuwch! Wfft i ddylanwad Cymraeg Byw.

Yn ogystal â'r coma, y mae i'r atalnod llawn ei bwysigrwydd hefyd. Pwysicach, efallai, a dyna ddaw ar ddiwedd yr adnod 'Duw, cariad yw.' Gall atalnod llawn fod yn ddim mwy na nodi terfyn brawddeg, fel y mae yn amlach na pheidio. Ond gall yn ei dro arwyddo diwedd rhywbeth pwysicach, a dyna a wna yma.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## O Gefn Gwlad

*(parhad o dudalen 4)*

Wedi dweud 'Duw, cariad yw.' – dyna ni, does dim byd mwy i'w ddweud. Dyna ddechrau a diwedd ein crefydd, a does angen dim byd arall.

Wel oes, medden ni. Y mae angen dehongli'r cariad hwn; y mae angen ei ddiffinio, angen efallai ei ddadansoddi a'i enghreifftio. A chawn fawr hwyl a budd hefyd, gobeithio, wrth drafod hyn oll, gan ymdrechu i beidio crwydro ymhell oddi wrth y testun!

Ond uwchlaw popeth y mae angen ei weithredu. Mewn byd sy'n arddangos cymaint o gasineb, gallwn ddatgan y cariad hwn, gallwn ddweud ein bod yn credu ynddo a gwneud dim, fel y byddai'r *News of the World* erstalwm yn datgan ei fod o blaid y da ac yna'n llenwi'r papur gydag adroddiadau am weithredoedd drwg! Ond cyn bwysiced ag yw cariad Duw yw ein cariad ni at ein gilydd ac at y byd cyfan, sydd, wedi'r cyfan, yn adlewyrchiad o gariad Duw, a hynny gan gofio un arall o adnodau mawr y Beibl: 'Ffydd heb weithredoedd, marw yw.'

Na, nid mewn rhyw fyd tu hwnt i'r llen, neu'n rhodio ar y cymylau y mae'r cariad hwn yn bodoli nac yn gweithredu, ond ynom ni a thrwyddom ni. Y ni sydd i fod i arddangos y cariad hwn, y ni sydd i fod i sicrhau mai cariad, nid casineb, sy'n teyrnasu o fewn ein broydd. 'Teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae,' meddai rhywun llawer mwy na neb ohonom. Os felly, onid yno y dylsai cariad fod yn trigo hefyd? Ond nefi, mae ganddon ni gyfrifoldeb, yn'does!

Os ydym yn addunedu unrhyw beth ar ddechrau blwyddyn, beth am benderfynu arddangos cariad Duw, gymaint ag y gallwn o leia, yn ein bywyd bob dydd, gan gofio'r pwyslais a rydd lleoliad y coma yn yr adnod ym Meibl William Morgan.

Ia, un garw oedd yr Esgob, 'dech chi ddim yn meddwl?


*Elfyn Pritchard*

# Merched ym mywyd Cymru yn yr ugeinfed ganrif

Cyfraniad merched i fywyd cyhoeddus Cymru'r ugeinfed ganrif yw'r thema sy'n clymu ynghyd ddwy brif ysgrif rhifyn Ionawr 2026 o'r *Traethodydd*. Mae Llion Wigley yn trafod y lle canolog a chwaraewyd gan ferched ym mywyd Plaid Cymru yn ystod ei blynyddoedd ffurfiannol, tra mae Siân Rhiannon Williams yn ein goleuo ynghylch bywyd, gwaith a gyrfa'r addysgydd o Gaerfyrddin, Elizabeth Phillips Hughes.

'Adnabod Deg Amgen' yw teitl yr ysgrif gyntaf, sy'n ymdrin â chyfraniad menywod i ddatblygiad Plaid Genedlaethol Cymru, *c.*1925–50. Cawn ddysgu am rai fel Mallt Williams, Llinos Roberts, Tegwen Clee, Efelyn Williams, Mai Williams a'i chwaer Priscie ac eraill. Mae'r rhain, i bob pwrpas, wedi eu 'hysgrifennu allan o'r stori' er bod enwau fel Kate Roberts a Cassie Davies yn gyfarwydd i lawer. Fel mae'n digwydd, mae cyfrol ddiweddar Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd, *Dros Gymru'n Gwlad: Hanes Sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru*, a adolygir yn y rhifyn hwn gan Richard Owen, yn rhoi sylw manwl i waith arloesol Mai Williams yn arbennig, ac eto mae'n dda cael gwybod mwy am y merched 'coll' hyn.

Enw anghyfarwydd i lawer yw Elizabeth Phillips Hughes, testun ysgrif afaelgar Siân Rhiannon Williams. Yn enedigol o Gaerfyrddin ac yn chwaer i'r pregethwr Wesle enwog Hugh Price Hughes, hi oedd prifathrawes gyntaf Coleg Hyfforddi Merched Caer-grawnt, a bu'n hynod flaengar yn ei dydd wrth geisio sicrhau cyfle a chyfartaledd i ferched ym maes addysg uwch. 'Merch Myrddin' oedd ei henw barddol, ac wedi gadael Caer-grawnt aeth i fyw i'r Barri gan




ymroi i'r mudiadau cymdeithasol oedd yn ffynnu yno ac yng nghylch Caerdydd yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Meddai Siân Rhiannon: 'Cafodd fywyd amrywiol a diddorol, ond fel cynifer o fenywod a gafodd ddylanwad arhosol yn lleol ac yn genedlaethol, aeth Elizabeth Hughes yn angof i lawer yng Nghymru. Mae'n bryd rhoi'r sylw haeddiannol iddi'. Gwych o beth yw cael gwneud hynny trwy gyfrwng yr ysgrif bwysig hon.


Enw cyfarwydd i ddarllenwyr *Y Traethodydd* yw Aled Jones Williams, nid yn gymaint fel dramodydd neu nofelydd ond fel bardd. Cerddi byrion, cryno, epigramatig sydd ganddo. Yn ôl yr Athro M. Wynn Thomas, mae'n fardd 'sy'n arbenigo mewn cynhyrchu "haikus" ysbrydol gwefreiddiol o dreiddgar. Efe, yn ddi-os, yw bardd "crefyddol" mawr ein cyfnod petrusgar, ymchwilgar ni'. Fel radical, yn wir fel drylliwr delwau, y caiff ei adnabod orau, efallai, ond dengys ei gyfrol hunangofiannol ddiweddar *Reit Rownd: Cyffes Aled Jones Williams* fod cryn newid wedi digwydd yn ei hanes. 'Cerdded y Cylch Cyfan: llwybr hirfaith Aled Jones Williams' yw teitl ysgrif-adolygiad gan y Golygydd, sy'n crynhoi cynnwys y gyfrol hynod hon. Yn ei dyb ef, mae hon yn un o gyfrolau crefyddol mwyaf trawiadol y blynyddoedd diwethaf. 'Gwledd sydd yma i'r meddwl ac i'r dychymyg,' meddai. Felly, anogwn bawb i ddarllen yr adolygiad ac, yn bwysicach na hynny, y gyfrol sy'n sail iddo.

Beirdd y rhifyn hwn yw Mary Burdett-Jones a D. Ben Rees. Dylid crybwyll hefyd ysgrif fer y llyfrbryf Gerald Morgan, gwaith ditectif ar y gyfrol *Car-ŵr y Cymry*, ysgrif sydd hefyd yn werth ei darllen. Ffyddloniaid y cylchgrawn yw'r tri awdur hyn, ac mae'n dda cael cynnwys eu gwaith.

Yn ôl ein harfer, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 11 – Ymson Hulda

Hulda ydw i. Rwy'n wraig i'r un sy'n edrych ar ôl gwisgoedd y brenin Joseia, ond fy arfwisg i yw gwirionedd yr Arglwydd. Ry'n ni'n byw yn Jerwsalem, yn y rhan newydd o'r ddinas sy'n cael ei hadnabod fel yr Ail Barth. Ond peidiwch â gadael i hynny eich camarwain, oherwydd, mewn gwirionedd, fe gewch hyd imi yn y tawelwch lle mae Duw. Yno rwy'n ymlonyddu ac yn clywed ei lais.

Daeth negeswyr y brenin ataf mewn panig. Fe wyddwn, cyn iddynt gyrraedd, eu bod ar fin dod, a gwyddwn pam hefyd. Mae'n rhaid iddynt gael gafael ar y sgrôl a fu'n llechu yng nghysgodion y deml. Roedd pwy bynnag a'i darganfu wedi meddwl ei fod yn drysor a'i fod yn cadw cyfrinachau gwerthfawr, ond cafwyd siom yn sicr! Roedd y dynion pwysig a chryf yma'n sefyll o fy mlaen i nawr yn llawn ansicrwydd.

Pasiodd un ohonynt y sgrôl i mi. Teimlais ei bregusrwydd yn fy nwylo, yn ogystal â phwysau'r blynyddoedd. Blynyddoedd o gael ei hanwybyddu, blynyddoedd o ddyheu am gael ei darllen. Ond er gwaetha'r blynyddoedd maith, 'dyw cyfraith yr Arglwydd ddim yn pallu wrth gael ei hanghofio. Fe drodd y genedl oddi wrth y gyfraith, do. A nawr, wele'r sgrôl yn deffro rhwng fy mysedd ac yn dweud: 'Gwae chi am f'anghofio.'

Gofynnodd un o'r dynion imi beth oedd neges Duw ar eu cyfer, a dechreuais esbonio wrtho. Gwnes yn siŵr nad oedd fy llais yn simsanu, er mor danbaid y neges. Gwell oedd iddynt glywed y gwirionedd yn eglur a chlir.

Daw trychinebau lu i'r lle hwn oherwydd i'r bobl anghofio am Dduw. Llosgwyd arogldarth i dduwiau gau – dyna gamgymeriad. Cythruddwyd yr Arglwydd gan y delwau a grëwyd – camgymeriad arall. Ddaw dim daioni o hyn ac ni ddylid gwneud yn ysgafn ohono. Rhaid cofio nad creulondeb Duw sy'n cael ei amlygu drwy hyn, ond anfodlonrwydd mawr.

Yna dywedais wrthynt am ddychwelyd at Joseia a dweud wrtho fod yr Arglwydd wedi'i weld yn rhwygo'i ddillad ac yn deall ei fod yn edifarhau. Sylwodd yr Arglwydd ar ei wyleidd-dra; clywodd yr Arglwydd ef yn wylo. Felly, oherwydd ei ddiffuantrwydd, byddai Joseia yn cael ei ryddhau. Caiff farw cyn profi'r trychinebau a gorwedd yn hedd ei feddrod.

Gofynnais iddynt wedyn pam nad oeddent yn gallu gweld mor rhyfeddol yw'r Arglwydd? Er ei fod yn ddig, mae ei ras yn fwy na'i farn. Gwell gan yr Arglwydd ganmol y rhai sy'n glynu wrtho na barnu'r rhai ffôl. Bydd gras Duw'n gorlifo dros y rhai sy'n edifarhau. Rhaid cofio hynny. Fe aethant yn ôl at Joseia.

Beth amdanaf fi? Person syml ydw i. Does gen i mo'r llais cryfaf, a dwi ddim yn bwysig; dwi ddim yn enwog nac yn llwyddiannus. Ond rwyf wedi cydio'n dynn yn yr Arglwydd yn gyson. Oherwydd hynny, medrais siarad yn hyderus.

Ydych chi'n pendroni pam y cefais i fy newis i fel proffwyd? Pam na fyddai Duw'n dewis y brenin Joseia, neu un o'r pwysigion? Welwch chi, mae Duw'n dewis fel a fynno. Weithiau bydd yn rhoi'r gwir mewn ystafell dawel am gyfnod, ac yna ar wefusau rhywun annisgwyl. A chofiwch hyn: nid yw Gair Duw yn rhywbeth cyfforddus bob amser; mae'n annog ymateb, mae'n ein cymell i edifarhau, mae'n ein herio i weithredu.

**Holi**

- Roedd Hulda'n broffwyd hyderus mewn cymdeithas batriarchaidd. Sut mae ei hesiampl hi'n herio ein syniadaeth ni o'r rhai mae Duw'n eu dewis i wneud ei waith yn ein cyfnod ni? A sut gall yr eglwys heddiw barchu pawb?
- Rhannodd Hulda am farn a gras dwyfol. Sut gall ei neges fod o gymorth inni ddatrys tensiynau ein hoes wrth ystyried pechod, edifarhau a chanlyniadau anwybyddu Duw?
- Cawn ein hatgoffa pa mor bwysig yw gwrando ar lais Duw cyn siarad ar ei ran. Sut gall stori Hulda siapio ein dealltwriaeth ni o ddirnadaeth ysbrydol? A sut gallwn ni ddatblygu calonnau diymhongar (heb fod yn llwfr) yn ymarferol ynghanol ein byd swnllyd?
- Roedd Hulda'n byw ar gyrion ei chymuned ac mae ei hymddangosiad yn y Beibl yn fyr iawn. Ond fe broffwydodd newid mawr. A oes ganddi hi neges ar ein cyfer ni yng nghyd-destun pwysigrwydd ffyddlondeb o'i gymharu â chydnabyddiaeth ac amlygrwydd personol?

**Gweddi**

Dduw ffyddlon, cryfha ein ffyddlondeb.
Dduw eiddigeddus, tro ein golygon atat Ti.
Dduw llawn gras, cymell ni i edifarhau.
Dduw cariadlon, llenwa ni â'th gynhesrwydd.
Dduw maddeugar, derbyn ni yn aml, aml.
Dduw amyneddgar, rho ddyhead yn ôl yn ein calonnau.
Dduw cadarn, nertha ein hymdrechion.
Dduw rhyfeddol, dyro inni'r gallu i weld dy ryfeddod. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 11 Ionawr, am 7:30yh – Cwmorthin**
Bydd Lowri Morgan yn ymweld â hen bentref Cwmorthin uwchben Tanygrisiau i ddysgu am fywyd caled teuluoedd y chwarel a'r ffydd grefyddol oedd yn eu cynnal. Cawn fwynhau perfformiad gan Gôr y Brythoniaid a daw'r canu mawl o Gapel y Bowydd, Blaenau Ffestiniog, dan arweiniad Trystan Lewis.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 11 Ionawr, am 7:30yb a 2:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Morse

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 11 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Heini Jones, y Tymbl

# 50, 80, 100 a 1700



Llun: Unsplash.com

Yn ogystal ag edrych ymlaen ar ddechrau blwyddyn, byddwn hefyd yn cymryd y cyfle i edrych 'nôl ar y flwyddyn a aeth heibio. Dyma geisio cloriannu rhai o'r uchafbwyntiau hynny yn hanes ein ffydd yma yng Nghymru.

**50**

Bydd y rhan fwyaf ohonom yn cofio lansio'r Testament Newydd Cymraeg a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Beibl yn 1975. Y llyfr gwyrdd â'r siaced lwch leim, a gyhoeddwyd 13 mlynedd cyn y Beibl cyflawn, fel rhan o broject cyfieithu'r Beibl Cymraeg Newydd.

Fel bachgen wyth oed yr adeg honno, dwi'n dal yn cofio derbyn fy nghopi yn rhodd gan Eglwys Aberduar, Llanybydder, ac mae'n debyg mai fi a'm cyfoedion oedd y genhedlaeth gyntaf ers 400 mlynedd i gael argraffiad newydd o'r Beibl yn Gymraeg. O'r herwydd, ychydig iawn o argraffiad 1620 o'r Testament Newydd y gwnes i ei ddarllen. Wrth ddarllen ac astudio yn fy arddegau, cofiaf mor hawdd oedd i mi ddarllen y Testament Newydd, ond roeddwn yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r Hen Destament. Diolch am waith diflino'r cyfieithwyr hynny a sicrhaodd fod yna Feibl cyflawn ar gael erbyn 1988, ond ar y pryd, roedd derbyn y Testament Newydd bach gwyrdd hwnnw yn foment bwysig yn fy hanes i ac yn ein hanes ni fel cenedl – a diolch amdano! Wrth gofio 'nôl 50 mlynedd, diolch bod y gwaith o hybu'r Beibl yn parhau, gyda chyhoeddi beibl.net a llawer o apiau a chyfryngau gwahanol newydd i'n helpu ni i gyd i wneud synnwyr o'r Beibl.




**80**

Yn 2025, cawsom gyfle i ddiolch am 80 mlynedd o weithgarwch gan Gymorth Cristnogol yng Nghymru. Bu'r elusen hon yn rhan annatod o fywyd ein heglwysi dros y cyfnod hwnnw, a braint fu cael bod mewn gwasanaeth dathlu a diolch yn y Tabernacl, Caerdydd, ym mis Medi. Byddwn yn cofio llawer o'r sloganau a fu'n rhan o'r ymgyrchu dros y degawdau hefyd, ac yn diolch am yr amlenni coch a'u rhoddion, a wnaeth gymaint i leddfu dioddefaint ym mhob rhan o'r byd. Wrth ddiolch am 80 mlynedd o weithgarwch, eto diolchwn fod y gwaith yma yn parhau. Er mai dileu tlodi yn gyfan gwbl yw'r nod, rydym hefyd yn sylweddoli y bydd bob amser rôl ar gyfer Cymorth Cristnogol, i ymgyrchu, addysgu, lobïo, heb sôn am yr angen i godi arian i wynebu trychinebau a thlodi yn ein byd.

**100**

Aeth 100 mlynedd heibio ers Deiseb Heddwch y Merched a gwaith arloesol Gwilym Davies ac Ymgyrch Heddwch 1925. Fel Cymry, rydym yn ymfalchïo yn ein hanes, ac yn y gwaith sy'n parhau. Diolch am Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, sy'n gyrru neges ar ran ieuenctid Cymru i bob cornel o'r byd, a hynny mewn dros 60 o ieithoedd gwahanol. Diolch am y gwylnosau rheolaidd sy'n cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru, wrth ymgyrchu a gweddïo dros heddwch yn Wcráin, yn Gaza a sawl gwlad a man therfysglyd arall yn y byd. Wrth edrych yn ôl ar 100 mlynedd yr Apêl, da yw atgoffa ein hunain mai ar daith yr ydym o hyd, a bod angen i ni i gyd fod yn effro i heriau mawr ein byd terfysglyd a threisgar. Diolch am gael cofio'r canmlwyddiant, a fydd yn ein hysbrydoli, gobeithio, i barhau i weithredu dros heddwch a chyfiawnder i holl drigolion ein byd.






**1,700**

Yn y flwyddyn 325 y lluniwyd Credo Nicea, sy'n ganllaw ac yn sylfaen i'n credo fel Cristnogion. Bu cyfnodau o drai a llanw yn ein hanes, cyfnodau o ddiwygiadau ac o wrthgilio a heresïau. Drwy'r cyfan mae'r Credo arbennig hwn wedi bod yn sylfaen gadarn i ni fel dilynwyr Iesu ac fel eglwysi. 1,700 mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn sôn am ddiwygiad tawel, lle gwelwn bobl unwaith eto yn chwilio a chwestiynu, a da yw medru rhannu sylfeini'r ffydd gyda chenhedlaeth newydd o bobl.

**2026**

Tybed pa gyfleoedd a ddaw i'n rhan eleni? Cyfle i ddarllen y Beibl o'r newydd? Cyfle i geisio cyfiawnder a helpu'r tlodion yn ein byd? Cyfle i geisio heddwch ledled y byd? Cyfle i ddilyn Iesu a rhannu sylfeini ein ffydd? Dyma ein cyfle a'n her!

*Aled Davies*



Capel Bwlchgwynt, Tregaron



Ysgol Pantglas a’r Bryncir



Sul Hwyl Treffynnon



Ysgol Sul y Tabernacl, Caerdydd



Salem, Treganna



Ysgol Sul Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid



Ysgol Sul Llannefydd



Ysgol Sul Noddfa, Llanbedr Pont Steffan

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â’r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru